Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?

Mae'r offeryn hwn yn rhoi cipolwg o'r sefyllfa o safbwynt pobl wahanol, beth sy'n gweithio'n dda, a beth sydd angen bod yn wahanol.

Beth sy'n gweithio?		Beth sydd ddim yn gweithio?
Cydberthnasoedd cadarnhaol gyda gweithwyr allweddol ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Mae'n dangos annibyniaeth gynyddol yn ystod amser byrbryd ac arferion hunanofal.	Gracie	Mae pontio rhwng gweithgareddau yn heriol iddi. Mae'n mynd yn rhwystredig pan fydd tasgau'n anodd a'i bod yn methu â chyfleu pa fath o gymorth sydd ei angen arni.

Beth sy'n gweithio?		Beth sydd ddim yn gweithio?
Mae'r teulu yn teimlo bod y lleoliad yn gwrando arnynt a'u bod yn helpu i wneud penderfyniadau. Mae cyflawniadau'r plentyn yn cael eu dathlu gartref ac yn y lleoliad.	Teulu	Mae'n anodd i'r teulu fynychu cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith. Mae'r teulu yn ei chael hi'n anodd rhoi strategaethau a awgrymwyd ar waith yn y cartref.

Beth sy'n gweithio?		Beth sydd ddim yn gweithio?
Trwy fynychu'r lleoliad mae gweithwyr proffesiynol yn cael profiad o weithio gyda phlant gwahanol ac mewn amgylcheddau gwahanol.	Gweithwyr proffesiynol	Mae angen cyngor wedi'i ddiweddaru gan y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd er mwyn rhoi strategaethau tebyg ar waith yn y cartref a'r lleoliad.

Beth sy'n gweithio?		Beth sydd ddim yn gweithio?

Mae staff yn deall cryfderau, anghenion a hoff weithgareddau'r plentyn. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd yn cael eu cynnal.	Lleoliad	Hyder staff wrth roi ymyriadau penodol ar waith gan ganolbwyntio ar gyfathrebu. Pontio – mae'n cymryd llawer o amser i Gracie bontio rhwng gweithgareddau, yn enwedig yn y prynhawn pan fydd hi wedi blino.

Beth sydd angen ei wneud nesaf er mwyn datblygu'r hyn sy'n gweithio a newid yr hyn sydd ddim yn gweithio? Helpu Gracie i ddatblygu dull llwyddiannus o reoli rhwystredigaeth pan fydd tasgau'n anodd. Gweithio gyda'r teulu i roi strategaethau ar waith yn y cartref fesul tipyn. Gofyn am fewnbwn gan y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd er mwyn helpu gyda'r ymyriad cyfathrebu.